

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â gosod trac ar gyfer doliau neu graeniau camera. Mae'n ymwneud ag asesu addasrwydd yr arwyneb ble defnyddir y trac, a'r math o drac yng nghyd-destun meintiau a phwysau'r offer sydd i'w gludo.

Mae'n ymwneud ag asesu unrhyw garntro arbenigol sydd ei angen gan oleddfau ac oblygiadau diogelwch personél sy'n mynd ar gefn unrhyw offer sy'n defnyddio'r trac.

Mae'r Safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n ymwneud â gosod trac cymhleth ar gyfer doliau neu graeniau camera.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- 1 Sicrhau fod unrhyw arwynebedd yn cynnal holl hyd y traciau'n ddigonol
- 2 Defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i adnabod eitemau uwchlaw'r traciau ac i'r naill ochr a'r llall ohonynt a allai achosi rhwystr neu berygl
- 3 Defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i asesu tebygolrwydd a natur, unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar sefydlogrwydd yr arwynebedd
- 4 Nodi'r math o lawr, y fframiau a'r byrddau a fydd yn cynnal pwysau'r traciau
- 5 Gosod traciau sy'n wastad a thawel
- 6 Darparu cymorth ychwanegol sy'n rhoi cryfder digonol dros fylchau neu fargodion, gan alw ar rigiwr arbenigol i ddod i mewn pan fo'n addas
- 7 Defnyddio mathau o draciau a argymhellir gan gyflenwyr
- 8 Sicrhau fod traciau'n sefydlog a diogel ar oleddfau serth, a bod modd i ddoliau allu tracio
- 9 Darparu liffiau fertigol gan ddefnyddio offer addas
- 10 Asesu a gosod atalfeydd diogelwch neu ddyfeisiadau brecio sy'n atal gorgyflymder neu dros redeg
- 11 Gosod trac mewn dull sy'n rhwystro unrhyw un rhag baglu drosto ar ddamwain
- 12 Sicrhau fod y trac yn ddiogel rhag niwed gan bethau'n cwmpo neu gan gerbydau sy'n symud
- 13 Sicrhau fod unrhyw asesiadau risg yn cael eu nodi, a bod pob personél yn cydymffurfio â'u gofynion.
- 14 Monitro a chynnal traciau ar gyfer holl gyfnod y gosodiad / siot
- 15 Symud a gosod traciau yn unol â gweithdrefnau trin â llaw
- 16 Sicrhau a gwarchod offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

- Mae angen i chi wybod a deall:*
- 1 Deddfwriaeth berthnasol, arweiniad ac arfer orau'r diwydiant
 - 2 Sut i gynhyrchu asesiadau risg ar gyfer yr hunan ac eraill
 - 3 Cyfeiriad ac ongl y sioiau a llwybr unrhyw ddiwydd
 - 4 O ble i gael gwybodaeth am leoliad y trac a'r hyd sydd ei angen
 - 5 Yr amser sydd ar gael i adeiladu
 - 6 Cyfyngiadau eich arbenigedd a phryd y mae'n addas galw ar arbenigwyr eraill
 - 7 Manteision gweithio mewn tîm a sut i gyfathrebu ag eraill
 - 8 Sut i asesu sefydlogrwydd arwynebeddau
 - 9 Pa amgylchiadau allai effeithio ar sefydlogrwydd arwynebeddau
 - 10 Sut i warchod arwynebedd bregus rhag niwed
 - 11 Dulliau adeiladu ar gyfer mathau perthnasol o loriau, fframiau a byrddau
 - 12 Sut i gael mynediad i rigwyr arbenigol i osod unrhyw ddeciau angenrheidiol ar gyfer traciau a phryd y mae'n addas eu defnyddio
 - 13 Sut i adeiladu a chynnal trac gwastad, tawel, waeth beth fo'r arwyneb
 - 14 Y mathau o drac i'w defnyddio ar gyfer doliau gwahanol
 - 15 Sut i rigio a gosod traciau, pwllis a strapiau hogi, clymu clymau a defnyddio strapiau clicied a gwifrau i atal slipio ar oleddfau
 - 16 Sut i ddefnyddio traciau, pwllis, strapiau hogi, clymau, strapiau clicied a gwifrau i rigio lifftiau fertigol
 - 17 Sut i ddarparu brecio neu harneisiau i atal gor-redeg
 - 18 Sut i atal perygl i eraill rhag baglu
 - 19 Sut i atal niwed i'r trac gan eraill
 - 20 Sut i fonitro a chynnal y trac ar gyfer holl gyfnod y gosodiad / siot
 - 21 Gweithdrefnau trin â llaw berthnasol gan gynnwys defnydd angenrheidiol o Offer Gwarchod Personol (PPE)
 - 22 Sut i ddiogelu offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio
 - 23 Pam ei bod hi mor bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG5
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip dan hyfforddiant; Grip
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Trac cymhleth, Ffilm a theledu Gweithredwr Crane, lechyd a diogelwch